(HCC 588)

**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 10.30am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Llun 7 Gorffennaf 2014**

**Yn Bresennol:** Dai Davies (Cadeirydd)
Will Haresign, Bethan Wynne Jones, Gwynn Angell Jones, Prys Morgan, Graham Probert, Glyn Roberts, Richard Rogers, Richard Tudor, Wyn Williams, John Yeomans

**Trwy Wahoddiad:** Gary Haggaty, Pennaeth Strategaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Strategaeth Wledig

**Yno hefyd:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Siôn Aron Jones (Rheolwr Datblygu'r Diwydiant)
Alan Morris (Rheolwr Cyfathrebu)
Laura Pickup (Rheolwraig Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)

Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Jo Horder (Swyddog Cig Coch) – Eitemau 10, 13a a 13b

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chafodd Will Haresign ei longyfarch ganddo am gael ei benodi'n aelod o Bwyllgor Adnoddau Genetig Anifeiliaid Fferm (FAnGR) sy'n darparu cyngor i Lywodraethau'r DG.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu ers y cyfarfod blaenorol:-

*Mai 2014*

Cynhaliwyd cyfarfod rhwng HCC a swyddogion newydd NFU Cymru er mwyn trafod gweithgareddau HCC a materion cyfredol ynglŷn a'r diwydiant. Yn ogystal, cyfarfu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr â Bwrdd Da Byw yr NFU yn ddiweddarach yn y mis. Croesawodd y Bwrdd Da Byw y cyfle i drafod nifer o faterion, gan gynnwys y rhagolygon ar gyfer y sector cig coch a materion ym ymwneud â'r Ardoll.

Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cyfarfod â Huw Irranca Davies, AS – Gweinidog yr Wrthblaid dros Fwyd a Ffermio. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar y modd annheg y mae Ardoll Cig Coch Prydain yn cael ei dosbarthu.

Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn bresennol yng nghynhadledd Cymdeithas Cig a Phroseswyr Prydain (BMPA) yn Llundain.

Mynychodd y Cadeirydd a’r Prif Weithredwr gyfarfod ynglŷn â’r Ardoll Cig Coch a drefnwyd gan QMS yng Nghaeredin (Gweler Eitem 8).

*Mehefin 2014*

Mynychodd y Cadeirydd a’r Prif Weithredwr gyfarfod â Russell George AC, a oedd newydd ei benodi’n Weinidog yr Wrthblaid dros Amaethyddiaeth ac Adnoddau Naturiol; ac Andrew R T Davies AC, Arweinydd yr Wrthblaid.

Bu’r Cadeirydd a’r Prif Weithredwr yn nigwyddiad Gwobrau Rheoli Cig yn Llundain ac yn y digwyddiad tir glas llwyddiannus a gynhaliwyd gan Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Y Ddôl, Llanbadarn Fynydd.

Bu’r Cadeirydd a’r Prif Weithredwr yn cynrychioli HCC yn lansiad Cynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bwyd a Diod.

Mynychodd y Cadeirydd a’r Prif Weithredwr Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Undeb Amaethwyr Cymru yn Aberystwyth.

Bu'r Cadeirydd mewn derbyniad gan CLA Cymru yn y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynhaliwyd digwyddiadau lladd-dai HCC a’r Mentrau Bach neu Ganolig i drafod estyn Oes Silff Cig Oen Cymru PGI yn Llanrwst, Conwy a Chastell-nedd. Arweiniwyd y trafodaethau gan y Cadeirydd ac roedd y siaradwyr yn cynnwys William Lloyd Williams, cyn-lywydd Ffederasiwn Cenedlaethol y Masnachwyr Cig a Bwyd, a’r Cyfarwyddwr Deddfwriaethol a Thechnegol (digwyddiad y Gogledd yn unig); Norman Bagley, Cyfarwyddwr AIMS; a Milorad Radakovic, cynghorydd milfeddygol i’r Asiantaeth Safonau Bwyd yn Llundain.

*Gorffennaf 2014*

Bu’r Cadeirydd yn yr Uwch Gynhadledd Cig Eidion wedi’i threfnu gan Defra ar 1 Gorffennaf 2014. Mynychwyd y cyfarfod gan amrediad eang o gynrychiolwyr o bob rhan o’r gadwyn gyflenwi. Cydnabuwyd bod cynhyrchwyr cig eidion y DG yn profi cyfnod anodd ar hyn o bryd a bod prisiau gwartheg cig eidion yn dal i fod yn isel. Cafwyd trafodaeth ynghylch y problemau cyfredol a’r hyn y gellid ei wneud i gefnogi diwydiant cig eidion cynaliadwy a phroffidiol yn y DG.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Helen Minnice-Smith, Llywodraeth Cymru.

3. **Datganiad o Fuddiannau**

Nodwyd Datganiadau o Fuddiannau fel a ganlyn:-

Trafodaeth a allai ddigwydd mewn perthynas â Rheoli Credyd - John Brereton, Prys Morgan a Wyn Williams.

4. **I dderbyn a chymeradwyo cofnodion o gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Gwener 9 Mai 2014 (HCC 574)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 9 Mai 2014 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Rheoli Credyd*

Dal yr eitem yn ôl - cyfrinachedd masnachol

*Ysgoloriaeth HCC*

Byddai cyfweliadau ar gyfer yr uchod yn cael eu cynnal ar 9 Gorffennaf 2014.

*Asiantau Allforio HCC*

Dywedodd y Rheolwraig Datblygu'r Farchnad fod Green Seed (Food from Britain yn flaenorol) wedi cael y gwaith o fod yn asiantau allforio i HCC yng Ngwlad Belg a Ffrainc.

*Adolygiad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Gyfer y Diwydiant Cig Coch yng Nghymru*

Nodwyd bod gwaith yr uchod yn cael ei gwblhau'n brydlon ac y byddai papur trafod ar gael i'r Bwrdd ei ystyried yn y cyfarfod ar 5 Medi 2014.

*Is-adran Llywodraeth Cymru er Datblygu Bwyd a'r Farchnad – Statws Enw Bwyd Gwarchodedig i is-frandiau Cig Oen yng Nghymru*

Dywedodd Rheolwraig Datblygu'r Farchnad fod Llywodraeth Cymru wedi datgan na wnaed unrhyw argymhellion mewn perthynas â gwneud cais am Statws Enw Bwyd Gwarchodedig i is-frandiau Cig Oen o Gymru.
Fel gwarcheidwad penodedig brand Cig Oen Cymru PGI, byddai HCC yn dal i gadw llygad ar y mater fel rhan o'r trafodaethau parhaus â Llywodraeth Cymru.

*Tendr Consortiwm Prynu Cymru a'r defnydd o Gig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI mewn sefydliadau Awdurdodau Lleol ac Iechyd*

Cynhelid cyfarfod cyn bo hir â chynrychiolydd o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Câi'r Bwrdd y manylion diweddaraf wedyn.

*Cais Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi: Cynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru*

Roedd disgwyl ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chais HCC am gyllid ychwanegol.

*Hollti Carcasau Cig Oen ar gyfer mamogiaid dau ddant*

Rhoddwyd diweddariad gan Reolwr Datblygu'r Diwydiant.

Ar hyn o bryd roedd dwy elfen yn cael eu hystyried / eu trafod gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd:-

*Ffordd wahanol o dynnu Deunydd Risg Penodedig (byrdmor)*

- Roedd yr Asiantaeth yn cydweithio â'r diwydiant i ystyried a fyddai dulliau gwahanol o dynnu asgwrn cefn defaid a geifr mor effeithiol â dull o dynnu 100% o'r deunydd risg oherwydd yn ôl y gofyniad presennol roedd rhaid rhaid hollti carcasau defaid dros 12 mis oed.

- Cynhaliwyd treialon gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd / y diwydiant, ond ni fu'r canlyniadau'n effeithiol o gwbl; arafwyd y prosesu a gadawyd peth deunydd risg mewn carcasau.

- Ni fyddai'r Grŵp Gorchwyl a sefydlwyd ar y cyd rhwng y diwydiant a'r Asiantaeth ar gyfer treialon pellach yn dechrau ar ei waith hyd nes bod yr offer yn effeithiol a heb arafu'r prosesu; nid oedd hyn wedi digwydd.

*Newid i ddeddfwriaeth UE (hirdymor)*

- Nid oedd unrhyw gynlluniau gan y Comisiwn Ewropeaidd ar hyn o bryd i ailystyried y gofynion oedran presennol ynghylch tynnu llinyn y cefn o ddefaid. Rhaid cadw'r gofynion hyn yn y rheolau cyfredol er mwyn diogel iechyd y cyhoedd.

Yn yr hirdymor, byddid yn cymell y Comisiwn Ewropeaidd i ystyried newid y gofynion.

Nodwyd bod Defra, sy'n arwain y trafodaethau yn Ewrop, wedi cytuno yng nghyfarfod diweddaraf y Grŵp Rhanddeiliaid Rheoli Cig Cyfredol a'r Dyfodol (CFMC) ym mis Mehefin 2014 i drafod y dewisiadau â'r Asiantaeth Safonau Bwyd gyda golwg ar ateb byrdymor a'r strategaeth hirdymor.

Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ar ran y Bwrdd ysgrifennu at Tim Bennett, Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, i dynnu sylw at y canlynol:-

- Dylai'r Asiantaeth adolygu a gweithredu rheolaethau priodol sydd yn seiliedig ar risg gwyddonol cyfrannol yn hytrach na chymryd camau rhagofalus.

- Mynegi pryder ynghylch y costau parhaus sylweddol i'r diwydiant yn sgil y rheolaethau caeth ar gyfer TSE mewn defaid sydd mewn grym ac sy'n gwneud cynhyrchion cig defaid yn llai cystadleuol yn erbyn cynhyrchion wedi'u mewnforio.

- Mynegi pryder ynghylch y diffyg canlyniadau o drafodaethau am dreialon i ystyried ffyrdd gwahanol o dynnu deunydd risg penodedig o anifeiliaid bach sy'n cnoi cil.

- Gwneud cais bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Defra yn parhau i bwyso ar y Comisiwn Ewropeaidd i adolygu'r gofyniad i dynnu llinyn y cefn o ddefaid hŷn a bod adolygiad yn cael ei gynnal yn y byrdymor i ystyried cynyddu'r oedran ar gyfer tynnu llinyn y cefn fel deunydd risg penodedig o ddefaid.

6. **<u>Adroddiadau HCC</u>**

a. *<u>Adroddiad Gweithgareddau (HCC 575)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*<u>Firws Dolur Rhydd Epidemig y Moch (PEDv)</u>*

Ynglŷn â chynhyrchion plasma neu waed o'r tu allan i'r UE i'w defnyddio mewn bwydydd anifeiliaid, cafodd plasma moch wedi'i sychu drwy chwistrellu (SPDD) ei ddefnyddio mewn bwyd moch ifainc. Cafodd y cynnyrch hwn ei wahardd gan Gynllun Gwarantu'r Tractor Coch, sydd yn rheoleiddio 90 y cant o gyflenwad moch mewnwladol y DG.

*<u>Ymgyrchoedd HCC i'r Defnyddwyr yn 2014 ar gyfer Cig Eidion Cymru PGI a Chig Oen Cymru PGI</u>*

Gwnaed y trefniadau ar gyfer ymgyrchoedd 2014

Nodwyd:-

- Byddai ymgyrch Cig Oen Cymru PGI yn dechrau'n gynharach eleni (Awst 2014) er mwyn adlewyrchu'r ffaith y byddai'r cynnyrch ar silffoedd y prif fân-werthwyr yn gynharach yn y tymor.

- Byddai ymgyrch Cig Eidion Cymru PGI yn dechrau'n gynharach eleni (Hydref 2014) mewn ymateb i'r prisiau gwartheg cyfredol.

  Rhoddodd Rheolwraig Datblygu'r Farchnad gyflwyniad ynghylch ymgyrch HCC ar gyfer Cig Oen Cymru PGI yn 2014.

b. *I gael manylion am bresenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru 2014*

Rhoddodd y Rheolwr Cyfathrebu fanylion am weithgareddau arfaethedig HCC yn ystod Sioe Frenhinol Cymru a dangoswyd delweddau o'r stondin Corfforaethol a stondin Datblygu'r Diwydiant.

Byddai'r Bwrdd yn cael y rhestr derfynol o weithgareddau cyn y sioe.

c. *Bwletin y Farchnad (HCC 576)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

ch. *Digwyddiadau i Ddod (HCC 577)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

7. **I dderbyn diweddariad llafar am yr Adolygiad o'r Sector Cig Eidion**

Roedd gwaith wedi dechrau ar yr Adolygiad ac roedd yr wybodaeth a gafwyd hyd yma yn dynodi problemau o ran cyflenwad a galwad.

Byddai canfyddiadau cychwynnol yr adroddiad yn cael eu rhannu â'r Bwrdd yn y cyfarfod ar 5 Medi 2014.

8. **I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad i'r Bwrdd am gyfarfod o'r Grŵp Ardoll Cig Coch, (AHDB, HCC, LMCNI a QMS) a gynhaliwyd yn QMS, Caeredin ar 27 Mai 2014.

9. **I dderbyn diweddariad llafar am EIDCymru – y gronfa ddata ar gyfer symud defaid**

Roedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, "EIDCymru: system electronig ar gyfer cofnodi symudiadau defaid a geifr - adnabod defaid a llacio'r rheolau lladd" wedi dod i ben ac roedd crynodeb wedi'i baratoi er mwyn i Grŵp Da Byw EID ei ystyried.  Byddai Llywodraeth Cymru yn cynghori'r Gweinidog am y canfyddiadau ac wedyn ceid cyhoeddiad yn ystod yr wythnosau i ddod.

Roedd trafodaethau'n parhau rhwng HCC a Llywodraeth Cymru ynghylch HCC yn goruchwylio swyddogaeth gwasanaeth biwro ar gyfer EIDCymru. Yr

argymhelliad ar hyn o bryd oedd y byddai EIDCymru yn cael ei sefydlu fel is-gwmni i HCC er mwyn cadw'r gweithgareddau Ardoll ac EIDCymru ar wahân.

10. **<u>I dderbyn a chymeradwyo adroddiad ynglŷn â thargedau Cynllun Busnes HCC 2013 / 2014 (HCC 578)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen ac wedi'i gyflwyno gan y Prif Weithredwr.

Cafodd yr adroddiad ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

11. **<u>Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg</u>**

a. *<u>I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Llun 23 Mehefin 2014</u>*

Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg adroddiad llafar ar y materion a drafodwyd yn y cyfarfod.
*<u>I dderbyn crynodeb o'r pwyntiau allweddol yn y Datganiadau Ariannol 2013 / 2014 (HCC 579)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen ac wedi ei gyflwyno gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

b. *<u>I dderbyn a chymeradwyo'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2013 - 2014 (HCC 580)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Argymhellodd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg y dylai'r Bwrdd gymeradwyo'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2013 / 2014.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwyr fod yr wybodaeth yn y Datganiadau Ariannol yn gywir ac wedi ei throsglwyddo i'r Archwilwyr.

Cafodd y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2013/14 eu cymeradwyo gan y Bwrdd.

12. **<u>Y Pwyllgor Cynghori Y&D</u>**

a. *<u>I gael adroddiad llafar am y Pwyllgor Cynghori Ymchwil a Datblygu a gynhaliwyd ddydd Mercher 11 Mehefin 2014</u>*

Rhoddodd Rheolwr Datblygu'r Diwydiant adroddiad llafar am y pynciau a drafodwyd yn y cyfarfod.

b. *<u>I fabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori Y&D a gynhaliwyd ddydd Mercher 5 Mawrth 2014 (HCC 581)</u>*

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Y&D a gynhaliwyd ddydd Mercher 5 Mehefin 2014 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

13. **Pwyllgor Monitro Strategaeth Cig Coch**

a. *I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Monitro Strategaeth Cig Coch a gynhaliwyd ddydd Gwener 9 Mai 2014 (HCC 582)*

Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ddydd Gwener 9 Mai 2014.-

Bu'r Pwyllgor yn trafod nifer o faterion mewn perthynas â'r gweithgareddau a gafwyd yn ystod 2013 / 2014, gan gynnwys dadansoddi delweddau fideo, defnyddio'r pumed chwarter, statws Enw Bwyd Gwarchodedig i Borc o Gymru a defnyddio'r cyfryngau digidol a chymdeithasol ar gyfer hyrwyddo.

Cytunodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno'r adroddiad drafft i'r Bwrdd er mwyn ei gymeradwyo.
Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Monitro Strategaeth Cig Coch a gynhaliwyd ddydd Gwener 9 Mai 2014 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

b. *I dderbyn a chymeradwyo Adroddiad Cynllun Gweithredu Monitro Blynyddol 2013 / 2014 (HCC 583)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen ac wedi'i gyflwyno gan y Swyddog Cig Coch.

Yn dilyn trafodaeth, cafodd yr adroddiad ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

Y camau nesaf – Byddai'r adroddiad yn cael ei anfon at y Gweinidog i'w gymeradwyo cyn cael ei gyhoeddi.

14. **Papurau er gwybodaeth:**

a. *Gwerthiannau Cig Oen yn ystod ymgyrch hysbysebu Cig Oen Cymru PGI 2013 (HCC 584)*

b. *Cyfleoedd Marchnata Byd-eang ar gyfer Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI (HCC 585)*

c. *Cyfleoedd ar gyfer cyd-gynhyrchion Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI (HCC 586)*

d. *Cyfleoedd ar gyfer Cig Oen Cymru PGI yng Nghyngor Cydweithredu'r Gwlff (HCC 587)*

Cymerwyd bod y papurau uchod wedi'u darllen.

15. **Unrhyw fater arall**

*Iechyd a Lles anifeiliaid yng Nghymru*

Nodwyd bod y Cadeirydd wedi'i benodi gan y Gweinidog i fod yn aelod o banel Llywodraeth Cymru, sef Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru.

16. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Gwener 5 Medi 2014.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**